PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN SWYDDFEYDD Y CYNGOR YN NHŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS DYDD LLUN 20 MAI 2024 AM 5.30 P.M.

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd C. Gordon – Cadeirydd
Y Cynghorydd B. Miles – Is-gadeirydd

Cynghorwyr:

E.M. Aldworth, C. Bishop, M. Chacon-Dawson, A. Leonard, J. Simmonds, J Winslade, a K. Woodland.

Aelodau'r Cabinet:

Y Cynghorwyr C. Andrews (Addysg a Chymunedau) ac E. Forehead (Gofal Cymdeithasol).

Ynghyd â:

Swyddogion: R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), G. Jenkins (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro), J. Williams (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Gwasanaethau i Oedolion), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), P. Warren (Arweinydd Strategol Gwella Ysgolion), A. West (Rheolwr Gwasanaethau Llunio Lleoedd a Chymunedau Dysgu Cynaliadwy), S. Ellis (Arweinydd Cynhwysiant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol), C Forbes-Thompson (Rheolwr Craffu), S. Hughes (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a J. Lloyd (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn bresennol:

Y Cynghorwyr S. Morgan a J. Pritchard, ac E. Pryce (Gwasanaeth Cyflawni Addysg), D. Harteveld (Gwasanaeth Cyflawni Addysg), S. Speedy (Gwasanaeth Cyflawni Addysg), a'r Aelod Cyfetholedig Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archesgobaethol Eglwys Uniongred Rwsia Caerdydd dros Addysg).

TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd y Cadeirydd y rhai oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ac y byddai recordiad ar gael i'w weld drwy wefan y Cyngor, ac eithrio trafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Cliciwch yma i weld.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan D. Street (Dirprwy Brif Weithredwr); y Cynghorwyr A. Broughton-Pettit, P. Cook, D. Cushing, M. Evans, A. Farina-Childs, T. Heron T. Parry, J. Roberts, ac S. Skivens; Mrs T. Millington (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwyr); Mrs P. Ireland (Yr Undeb Addysg Cenedlaethol); Mrs K. Cole (Yr Undeb Addysg Cenedlaethol) a Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili).
Nodwyd y cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd T. Parry (Cadeirydd) a gan y Cynghorydd B. Miles (Is-Gadeirydd) oherwydd problemau technegol a brofwyd. Cynigiwyd, eiliwyd a chefnogwyd gan y mwyafrif oedd yn bresennol drwy godi dwylo, bod y Cynghorydd C. Gordon yn llywyddu fel Cadeirydd y cyfarfod hwn.

Wrth ymddiheuro am absenoldeb, gofynnodd y Cynghorydd J. Roberts i'r cyfarfod gael ei gofnodi, oherwydd nad oedd yn gallu ymuno yn sgil problemau technegol.

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Nodwyd bod y Cynghorydd C. Bishop wedi datgan buddiant personol o ran Eitem 10 ar yr Agenda, Ffedereiddio Ysgolion gan ei bod yn llywodraethwr ysgol yn un o'r ysgolion dan sylw.

Gan fod y buddiant yn un personol yn unig, nid oedd yn ofynnol iddi adael y cyfarfod ac roedd modd iddi gymryd rhan lawn yn y ddadl a'r bleidlais. Mae'r manylion hefyd wedi eu cofnodi gyda'r eitem briodol.

3. PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A GYNHALIWYD AR 12 MAWRTH 2024.

Cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2024 fel cofnod cywir. Drwy Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar (ac wrth nodi bod 8 o blaid, 0 yn erbyn ac 1 yn ymatal), cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

> PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 12 Medi 2023 (cofnodion rhif 1-10) fel cofnod cywir.

4. PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL ARBENNIG A GYNHALIWYD AR 20 MAWRTH 2024.

Cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2024 fel cofnod cywir. Drwy Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar (ac wrth nodi bod 7 o blaid, 0 yn erbyn ac 1 yn ymatal), cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

> PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol arbennig a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2024 (cofnodion rhif 1-4) fel cofnod cywir.

5. YSTYRIED UNRHYW FATER A GYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR CRAFFU YN UNOL Â'R WEITHDREFN GALW I MEWN.

Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion at y Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.

6. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynodd y Rheolwr Craffu yr adroddiad, a oedd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ei Flaenraglen Waith a gynlluniwyd ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mai 2024 a mis Mawrth 2025.

Yn dilyn ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhelliad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar.

> PENDERFYNWYD cyhoeddi Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol fel y'i hatodwyd i bapurau'r cyfarfod, ar wefan y Cyngor.

7. ADRODDIADAU'R CABINET

Cadarnhawyd na fu unrhyw geisiadau i unrhyw un o adroddiadau'r Cabinet a restrwyd ar yr agenda gael eu dwyn ymlaen i'w trafod yn y cyfarfod.

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol.

8. TROSOLWG O SUT MAE'R GWASANAETH CYFLAWNI ADDYSG YN CYNORTHWYO AWDURDOD LLEOL CAERFFILI I GYFLAWNI EI SWYDDOGAETH GWELLA YSGOLION.

Cyflwynodd y Cynghorydd C. Andrews (Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau) yr adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg i'r Aelodau o sut mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn cynorthwyo Awdurdod Lleol Caerffili i gyflawni ei swyddogaeth gwella ysgolion, ac i ofyn am farn yr Aelodau am y trefniadau presennol ar gyfer darparu'r cymorth hwn, o fewn cyd-destun adolygiad parhaus.

Cyfeiriwyd yr Aelodau hefyd at y cyflwyniad a oedd yn cefnogi'r adroddiad, a oedd yn rhoi trosolwg manwl o'r ffyrdd y mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn helpu Awdurdod Lleol Caerffili i gyflawni ei swyddogaeth Gwella Ysgolion.

Cwestiynodd Aelod pryd fydd disgwyl i swydd wag y Cyfarwyddwr Cynorthwyol gael ei llenwi a gofynnodd am eglurhad ynghylch y gostyngiad mewn cyllid y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ac a fyddai safonau'n cael eu cynnal yng Nghaerffili. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oes unrhyw gynlluniau i lenwi swydd wag y Cyfarwyddwr Cynorthwyol yn yr hinsawdd ariannol bresennol a bod staff yn cael eu defnyddio o fewn y gwasanaeth i ymgymryd â rhai o'r rolau gofynnol. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau hefyd y byddai safonau'n cael eu cynnal er bod llai o gyllid. Cyfeiriodd yr Aelodau hefyd at y cyflwyniad yn y pecyn agenda gan nodi bod maint y ffont yn rhy fach.

Ceisiodd Aelod eglurhad am y cyfarfodydd 'tîm o amgylch yr ysgol', pa mor aml maen nhw'n digwydd, ac a oedden nhw'n cynnwys pob ysgol neu dim ond ysgolion sydd eu hangen. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y broses yn cael ei rhoi ar waith ar gyfer ysgolion sydd angen cymorth ychwanegol, mewn amgylchiadau ymyrraeth gynnar neu yn dilyn adroddiad Estyn lle mae'r ysgol yn cael ei dosbarthu yn gategori 'dilyn i fyny'. Byddai amlder y cyfarfodydd yn dibynnu ar anghenion yr ysgol, fel arfer yn fisol.

Ar ôl ystyried a chraffu ar yr adroddiad, gofynnodd y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol gwestiynau a chynigiodd farn am y trefniadau presennol.

9. CRYNODEB O GANLYNIADAU AROLYGIADAU ESTYN O DAN Y FFRAMWAITH AROLYGU CYFFREDIN NEWYDD – MIS IONAWR 2022 HYD AT FIS MAWRTH 2024.

Cyflwynodd y Cynghorydd C. Andrews (Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau) yr adroddiad a oedd yn hysbysu'r Aelodau o'r dyfarniadau a wnaed gan dimau arolygu Estyn o ran ysgolion Caerffili rhwng mis Ionawr 2022 a mis Mawrth 2024 (lle y'i cyhoeddwyd), a gofynnodd am farn yr Aelodau am ganlyniadau Estyn.

Cynghorwyd yr Aelodau bod yr ysgolion yn yr adroddiad wedi'u harolygu o fis Ionawr 2022 ymlaen. Cafodd pob un ohonyn nhw eu harolygu o dan y trefniadau ar gyfer arolygiadau, a ddaeth i rym o 1 Ionawr 2022, gyda'r ddau dymor cyntaf yn cael eu hystyried yn drefniadau peilot. Roedd yr adroddiad yn nodi'r ysgolion a'r dyddiadau y cynhaliwyd yr arolygiadau, ynghyd â'r categori 'gweithgarwch dilynol'. Roedd yr adroddiad cronnus yn cynnwys canlyniadau eisoes wedi'u hadrodd rhwng Ionawr 2022 a Mawrth 2023.

Cafodd yr Aelodau drosolwg o'r broses ac eglurwyd lefel yr ymgysylltu rhwng Estyn ac ysgolion dros y blynyddoedd diwethaf. Cyfeiriwyd at y cynnydd gan Ysgol Gynradd Crymlyn Lefel Uwch sydd wedi gwneud cynnydd boddhaol ac sydd wedi'i thynnu o'r categori 'mesurau arbennig'. Roedd hyn yn dyst i waith caled y pennaeth a'r holl staff. Dywedodd swyddogion eu bod nhw wrth eu bodd gyda'r canlyniad.

Dywedwyd wrth yr Aelodau ei bod yn braf gweld y gynrychiolaeth o ysgolion Caerffili yn adroddiad Estyn ac bydd enghreifftiau o arfer cryf yn cael eu rhannu.
Bydd yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu harchwilio i chwilio am bethau cyffredin a themâu i helpu gyda chynllunio strategol yn y dyfodol.

Nododd Aelod fod yr 'Uned Atgyfeirio Disgyblion', fel y cyfeiriwyd ati, yn awgrymu bod hyn ar gyfer plant 'problemus' a gofynnodd am eglurhad o'r disgrifiad hwn. Dywedwyd wrth yr Aelodau mai 'Uned Atgyfeirio Disgyblion Glan-y-nant' oedd yr opsiwn a ffefrir pan gafodd ei ystyried gan Estyn.

Ar ôl ystyried a chraffu ar yr adroddiad, gofynnodd y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol gwestiynau a chynigiodd farn am ddeilliannau cyffredinol ysgolion.

10. FFEDEREIDDIO YSGOLION.

Fe wnaeth y Cynghorydd C. Bishop ddatgan buddiant personol gan ei bod yn llywodraethwr ysgol yn un o'r ysgolion dan sylw. Gan fod y buddiant yn un personol yn unig, nid oedd yn ofynnol iddi adael y cyfarfod ac roedd modd iddi gymryd rhan lawn yn y ddadl a'r bleidlais.

Cyflwynodd y Cynghorydd C. Andrews (Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau) yr adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio i'r argymhelliad i'r Cabinet fynd ymlaen i ymgynghori, mewn partneriaeth â phob Corff Llywodraethol, mewn perthynas â Ffedereiddio Ysgol Fabanod Cwmaber ac Ysgol Iau Cwmaber o ddechrau tymor mis Ionawr 2025.

Cynghorwyd yr Aelodau bod yr adroddiad yn rhoi cefndir i Reoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) Llywodraeth Cymru a gyflwynwyd yn 2014, ac roedd yn amlinellu prosesau ac agweddau ymarferol ar sefydlu corff llywodraethu ysgolion ffederal. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi'r Ysgolion a'r Cyrff Llywodraethu sy'n dymuno symud ymlaen i ymgynghoriad ffurfiol mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Craffu bod Cadeiryddion Cyrff Llywodraethu'r ddwy ysgol yr effeithir arnyn nhw gan yr argymhellion wedi cysylltu â Chadeirydd y Pwyllgor Craffu, Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Cynghorydd Teresa Parry, i sicrhau'r Pwyllgor Craffu eu bod nhw'n hollol gefnogol o ran yr argymhelliad i fwrw ymlaen â ffedereiddio Ysgol Fabanod Cwmaber ac Ysgol Iau Cwmaber.

Cwestiynodd Aelod beth yw perfformiad y ddwy ysgol ar hyn o bryd ac a fydd y ffedereiddio yn cael ei asesu o bryd i'w gilydd i sicrhau ei fod yn effeithiol. Dywedwyd wrth y Pwyllgor Craffu

bod perfformiad y ddwy ysgol yn dda ac nad oes unrhyw achosion o bryder. Mae gan y ddwy ysgol hanes o berfformiad cryf, ac mae disgwyl y bydd y ffedereiddio yn darparu cyfleoedd pellach ar gyfer twf a datblygiad parhaus. Dywedwyd wrth yr Aelodau hefyd fod pob ysgol yn cael ei monitro i weld sut maen nhw'n gweithredu ac yn darparu, felly ni fyddai ysgol ffederal yn wahanol. Byddai gwerthusiadau o'r broses hon a siarad â disgyblion hefyd am eu barn. Yn ogystal, byddai'r 'tîm o amgylch yr ysgol' yn cadw mewn cysylltiad i sicrhau bod popeth yn gweithio'n iawn.

Mae swyddogion hefyd wedi cwrdd â'r Cyrff Llywodraethol i fynd â nhw drwy'r broses ffedereiddio, a dylid nodi bod yr ysgolion eisoes wedi bod yn cydweithio ers nifer o flynyddoedd. Roedd yn amlwg iawn ar ôl y cyflwyniad i'r cyrff llywodraethol eu bod nhw'n hyderus gyda'i gilydd ac yn ei ystyried fel y cam rhesymegol nesaf ymlaen.

Yn dilyn ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhelliad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms.

ARGYMHELLWYD i'r Cabinet:

Symud ymlaen i ymgynghori, mewn partneriaeth â phob Corff Llywodraethol, mewn perthynas â Ffedereiddio Ysgol Fabanod Cwmaber ac Ysgol Iau Cwmaber o ddechrau tymor mis Ionawr 2025.

11. DIOGELU.

Cyflwynodd y Cynghorydd C. Andrews (Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau) yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau mewn perthynas â gwaith yr adran addysg i gynorthwyo ysgolion. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod diogelu plant a phobl ifanc yn ddyletswydd statudol allweddol ar y Cyngor ac mae wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019).

Hysbyswyd yr Aelodau hefyd fod yr Awdurdod Lleol yn canolbwyntio ar sicrhau bod diwylliant o ddiogelu wedi'i ymgorffori, a bod ganddo bolisïau a gweithdrefnau clir sy'n gysylltiedig â diogelu plant mewn gwasanaethau addysg, sy'n cael eu hadolygu a'u diweddaru pan fo angen. Mae diogelu yn sail i flaenoriaethau yng Nghynllun y Gyfadran (2023-2028) a'r holl gynlluniau cysylltiedig ac mae'n adlewyrchu cyflwyno Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) o fewn ei hegwyddorion a'i harferion.

Ceisiodd Aelod eglurhad am ymyrraeth gorfforol, ac a yw diogelu, asesiadau risg ac adolygiadau o ddeddfwriaeth yn cael eu rhoi ar waith o ran pob plentyn unigol y mae angen y math hwn o ymyriad arno, ac os oes ôl-drafodaeth orfodol yn dilyn pob digwyddiad i nodi a lleihau'r angen amdanyn nhw yn y dyfodol. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y mesurau diogelu hyn yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer y plant hynny y mae angen ymyrraeth gorfforol arnyn nhw a bod sesiynau dadfriffio'n cael eu cynnal bob amser pan fo'r dull hwnnw wedi bod yn angenrheidiol.

Cwestiynodd Aelod a oedd angen hyfforddiant ychwanegol penodol ar gyfer 'rhwng cyfoedion' a materion cam-fanteisio, neu a oedden nhw wedi'u cynnwys yn yr hyfforddiant diogelu. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y Cyngor wedi datblygu ei gynllun gweithredu ei hun mewn perthynas â 'rhwng cyfoedion'. Gofynnodd yr Aelod am eglurhad ynghylch a oedd 'hyfforddi'r hyfforddwr' yn creu gwrthdaro buddiannau gan fod yn bosibl bod y Pennaeth hefyd yn Swyddog Diogelu'r ysgol. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr Awdurdod Lleol yn darparu 'hyfforddi'r hyfforddwr' i'r Penaethiaid, sydd wedyn yn gyfrifol am sicrhau bod holl aelodau tîm yr ysgol yn cael hyfforddiant diogelu a diweddariadau yn rheolaidd. Fel arfer, mae penaethiaid mewn ysgolion cynradd hefyd yn Swyddogion Diogelu a bydden nhw'n cael hyfforddiant penodol ar

wahân ar gyfer y rôl hon. Gofynnodd yr Aelod am eglurhad ynghylch nifer yr ysgolion a gymerodd ran o'r 129 o staff a fynychodd yr hyfforddiant haen 3. Hysbyswyd yr Aelodau y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei chadarnhau a'i dosbarthu i'r Aelodau ar ôl y cyfarfod. Eglurodd yr Aelod hefyd fod holl staff yr ysgol yn cael hyfforddiant 'Prevent', gyda gwybodaeth ychwanegol sy'n cael ei darparu gan yr Awdurdod Lleol.

Cwestiynodd Aelod a yw 'fepio' mewn ysgolion bellach wedi'i gynnwys mewn polisïau diogelu. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad yw wedi'i gynnwys yn benodol o dan 'ddiogelu' ond mae'n cael ei gydnabod fel mater o fewn ysgolion ac yn cael sylw o dan 'ysgolion iach' a lles i bobl ifanc. Sicrhawyd yr Aelodau bod y materion sy'n ymwneud â 'fepio' yn flaenoriaeth sy'n cael sylw a chawson nhw eu cyfeirio hefyd at Seminar yr Aelodau ar fepio mewn ysgolion, sydd i'w gynnal ar 13 Mehefin.

Cwestiynodd Aelod a oedd 'troseddau cyllyll' wedi'u cynnwys o dan 'Prevent'. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai hyn yn cael ei ystyried o dan bolisïau ymddygiad ysgolion, diogelwch, a 'Protect,' yn ogystal â 'Prevent.'

Ar ôl ystyried yr adroddiad, nododd y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol gynnwys yr adroddiad.

Atgoffodd y Cynghorydd C. Andrews (Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau) yr Aelodau fod cyfarfod y Fforwm Ieuenctid yn digwydd ar 23 Mai a gwahoddwyd yr Aelodau i fod yn bresennol.

Terfynwyd y cyfarfod am 6.15pm.

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir, yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau a gytunir a'u cofnodir yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 16 Gorffennaf 2024.

_____

CADEIRYDD